Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – 4 Tachwedd 2025

Adroddiad gan Anjali Juneja, Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r DU a Sian Bowsley, Cyfarwyddwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru

## 1.Crynodeb

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys:

- dolen i'r papur a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, a gynhaliwyd ar 17 Medi 2025
- crynodeb o weithgarwch ymgysylltu'r uwch-dîm rheoli ar draws Cyfarwyddiaeth Materion Rhyngwladol a'r Deyrnas Unedig (UKIA)
- trosolwg o ddatblygiadau a materion o ddiddordeb i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru mewn perthynas â Chymru.

1.2 Gwahoddir aelodau'r pwyllgor i wneud y canlynol:

- **Nodi'r** wybodaeth ddiweddaraf
- gwahodd y **Cyfarwyddwyr** i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

## 2. Adroddiad y Prif Weithredwr i'r Bwrdd

2.1 Dyma adroddiad diweddaraf y Prif Weithredwr a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

## 3. Trosolwg gan Gyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r Deyrnas Unedig (UKIA)

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o rywfaint o'r gwaith allweddol a wnaed gan Anjali Juneja, Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r Deyrnas Unedig, ers yr adroddiad diwethaf ym mis Gorffennaf.

3.2 Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn parhau i weithio ar draws y Llywodraeth i ddeall ac ystyried yn ofalus sut gallai cytundeb iechydol a ffytoiechydol (SPS) gyda'r UE arwain at oblygiadau iechyd y cyhoedd o ran bwyd a bwyd anifeiliaid. Er y bydd Llywodraeth y DU yn negodi'r cytundeb ar ran y DU, rydym yn cefnogi ei hymdrechion i weithio ar sail pedair gwlad a byddwn yn ymgysylltu'n agos â llywodraethau ledled y DU.

3.3 Cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol chwe phenodiad newydd i Fwrdd yr ASB, un ohonynt oedd Syr Frank Atherton, cyn Brif Swyddog Meddygol Cymru. Mynychodd Fwrdd yr ASB ym mis Medi ym Melffast.

### Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru

3.4 Rwyf wedi parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i gefnogi ein cais am Adolygiad o'r Gwariant a'r gwaith o gynllunio cyllidebau yng Nghymru. Mae ein trafodaethau hefyd wedi canolbwyntio ar feysydd strategol allweddol gan gynnwys awdurdodiadau'r farchnad, Operation Pegasus, ac Adolygiad parhaus yr ASB, ac mae rhagor o fanylion am bob un ohonynt yn yr adroddiad hwn. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi helpu i sicrhau cysondeb o ran blaenoriaethau a dealltwriaeth gliriach o ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn, a fydd yn sail i'n dull gweithredu ac yn cryfhau ein sefyllfa mewn cynlluniau sydd ar y gweill.

3.5 Ar lefel Weinidogol, cyfarfu Cadeirydd y Bwrdd, Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a minnau â Sarah Murphy AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, yn ddiweddar i drafod blaenoriaethau allweddol ar gyfer y chwe mis nesaf cyn etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai. Ymysg pethau eraill, roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar gefnogi awdurdodau lleol, bwrw ymlaen â'r adolygiad o'r ASB yng Nghymru a materion SPS o ddiddordeb cyffredin. Roedd y Gweinidog yn croesawu ymgysylltiad parhaus yr ASB ac aeth ati i ailddatgan pwysigrwydd cydweithio agos i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru'n cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau a darpariaethau yn y dyfodol.

# 4. Diweddariad gan Gyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru

4.1 Ers cyfarfod â thema diwethaf Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ym mis Gorffennaf, rydym wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau ymgysylltu strategol canlynol:

- Fe wnaethom hwyluso diwrnod llawn o ymgysylltu ar gyfer ein Cadeirydd ni, a Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yn **Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru** eleni, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys Gweinidogion, NFU Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Helpodd y sgyrsiau hyn i gryfhau perthnasoedd, codi ymwybyddiaeth o'n blaenoriaethau, a nodi meysydd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.
- Yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, aethom i'r **Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam** gyda'n stondin fodiwlaidd i roi gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr ar waith yr ASB. Diolch i'r gwirfoddolwyr ymroddedig o bob rhan o'r ASB, gan gynnwys John Williams, aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, a ddarparodd ystod eang o gyngor a gwybodaeth werthfawr yn ystod y digwyddiad, gan helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o waith yr ASB. Fe wnaethom lwyddo i ymgysylltu â dros 1500 o aelodau o'r cyhoedd, a manteisio ar nifer o gyfleoedd i ymgysylltu ymhellach â defnyddwyr.
- 
- Ym mis Medi, aeth aelodau o'r tîm arwain yng Nghymru i'r Senedd ar gyfer **Y Farchnad** – digwyddiad anffurfiol a luniwyd i annog sgyrsiau ystyrlon gydag Aelodau o'r Senedd. Wedi'i noddi gan Samuel Kurtz AS, denodd ein stondin ddiddordeb o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, gyda brwdfrydedd penodol dros y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'i rôl yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus. Roedd y fformat yn caniatáu ar gyfer trafodaethau dyfnach, mwy gonest, gan roi cipolwg gwerthfawr i ni ar flaenoriaethau a phryderon Aelodau o'r Senedd. Rydym eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer mynd i'r digwyddiad nesaf ym mis Chwefror – cyfle amserol i ymgysylltu cyn yr etholiad nesaf.
- Ym mis Medi hefyd, bu Sarah Aza a minnau'n **briffio Aelodau'r Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol ac Iechyd y Cyhoedd** – drwy sesiwn a drefnwyd gan Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru – ar rôl yr ASB yng Nghymru. Fe wnaethom dynnu sylw at ein cydweithrediad ag awdurdodau lleol, a sbardunodd drafodaeth werthfawr am adnoddau awdurdodau lleol a rheoleiddio ar lefel genedlaethol. Roedd y sesiwn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i helpu'r tîm i fwrw ymlaen â'u gwaith a chodi ymwybyddiaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'u blaenau.

- Yn ddiweddar, cafwyd gyflwyniad gan Jonathan Davies yn **Fforwm Bwyd Llywodraeth Cymru** i godi ein proffil ymysg cydweithwyr allweddol yn Llywodraeth Cymru ac i drafod ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen. Rydym bellach wedi ymuno â'r fforwm hwn a byddwn yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol, a fydd yn darparu gwybodaeth werthfawr a llwyfan ar gyfer cydweithio. Yn yr un modd, ymunais â chyfarfod diweddar o **Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru** i roi trosolwg o'r gwaith a'r blaenoriaethau sydd ar y gweill, a arweiniodd at drafodaethau diddorol ar sut y gallwn gefnogi'r Bwrdd yn y dyfodol.
- Yng **nghynhadledd CIEH** ym mis Hydref, roeddem yn falch iawn o groesawu Katie Pettifer, ein Prif Weithredwr, i Gaerdydd. Rhoddodd Katie gyflwyniad yn amlinellu strategaethau a blaenoriaethau'r ASB ar gyfer y dyfodol, gan dynnu sylw at ymrwymiad y sefydliad i sicrhau diogelwch bwyd, hyrwyddo iechyd y cyhoedd, ac addasu i heriau sy'n dod i'r amlwg ar draws y sector. Roedd hefyd yn gyfle i Katie gwrdd â rhanddeiliaid allweddol a sgwrsio â nhw, gan gynnwys cynrychiolwyr ar ran Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru.
- Dros yr haf, fel rhan o **brosiect Cyfrifiaduron i Elusen** yr ASB, rhoddodd y tîm offer TG i elusennau ledled y wlad – gan helpu i gryfhau mynediad digidol a chefnogi gwasanaethau hanfodol mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Cafodd pob elusen rodd o liniaduron a ffonau clyfar i'w helpu i wella eu galluoedd digidol a gwasanaethu'r bobl sy'n dibynnu arnynt yn well. Roeddent yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys banciau bwyd, darparwr tai brys, ac elusen sy'n cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid.
- Rwyf hefyd wedi parhau i fynychu'r gr?p goruchwylio ar gyfer **Adolygiad Met Caerdydd o'r ASB yng Nghymru**. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Met Caerdydd i sicrhau bod yr adroddiad yn gywir ac yn cyflawni camau gweithredu pendant. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

4.2 Dros y misoedd diwethaf, mae'r **timau polisi** yng Nghymru wedi bod yn ymwneud â'r ffrydiau gwaith canlynol:

- Yn dilyn trafodaethau diweddar y Bwrdd ar **glyserol mewn diodydd iâ slwsh**, a gyda chefnogaeth y tîm cyfathrebu yng Nghymru, fe wnaethom hyrwyddo negeseuon iechyd allweddol i randdeiliaid a defnyddwyr ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys briffio Aelodau o Senedd Cymru ac Aelodau Seneddol, rhannu gwybodaeth allweddol â'r prif darparwyr cyfryngau, a darparu pecyn cymorth i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i ymhelaethu ar y negeseuon. Buom yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd Plant GIG Cymru, ac is-adrannau Iechyd ac Addysg Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sefydliadau fel Mudiad Meithrin a'r Urdd i ymestyn cyrhaeddiad yr ymgyrch – yn enwedig yn ystod misoedd yr haf pan oedd defnydd a risg ar eu huchaf. Cafodd yr ymgyrch lawer o sylw gan y cyfryngau yng Nghymru.
- Rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y pedair gwlad i fwrw ymlaen â'r gwaith ar **labelu a safonau cyfansoddol** ar gyfer y prosiect Cynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd. Ar y cyd â'r ASB yng Ngogledd Iwerddon, fe wnaethom ddatblygu cyfres o bapurau a oedd yn edrych ar sut mae cynnyrch o'r fath yn cael ei reoleiddio'n rhyngwladol, y safbwyntiau presennol ar draws aelod-wladwriaethau'r UE, a goblygiadau posibl dulliau rheoleiddio gwahanol.
- Rydym wedi argymell ac wedi llwyddo i sicrhau cymeradwyaeth weinidogol i awdurdodi wyth cynnyrch rheoledig newydd yng Nghymru.
- Gan weithio gyda chydweithwyr ehangach yn yr ASB, fe wnaethom gyhoeddi **datganiad rheoli risg** yn cynghori busnesau i beidio â defnyddio **plastig sy'n mynd i'r môr (OBP) mewn pecynnau bwyd.** Mae hyn yn dilyn asesiad gan y Gr?p Arbenigwyr ar y Cyd ar ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a oedd yn adolygu'r defnydd o blastigau sy'n mynd i'r môr mewn pecynnau cig, dofednod a physgod.
- O ran yr adolygiad presennol o'r **cynllun gostyngiadau wrth godi tâl yn y sector cig**, yn ddiweddar cyfarfu'r tîm â rhanddeiliaid yn niwydiant cig Cymru yng Nghaerdydd i gasglu adborth gan randdeiliaid ar y dull gweithredu ar gyfer cefnogi lladd-dai a sefydliadau trin anifeiliaid hela yn y dyfodol. Bydd yr adborth a gesglir gan randdeiliaid yng Nghymru, ac

mewn digwyddiadau tebyg yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn sail i bapur a fydd yn mynd gerbron y Bwrdd ym mis Rhagfyr.
- Cyfarfu'r tîm â **Lillian Jones AS (Kilmarnock a Loudoun)**, i drafod galw ychwanegion bwyd fitamin D yn ôl mewn safleoedd fferyllol a'r dirwedd ychwanegion bwyd.
- Fe wnaethom hefyd roi cyflwyniad yn **Fforwm Rheoli Alergenau** cyntaf Zero2Five ym mis Hydref, lle'r oedd busnesau, tai profi ac Anaphylaxis UK yn bresennol. Roeddem yn canolbwyntio ar alergenau anfwriadol, digwyddiadau bwyd a galw cynnyrch yn ôl, gan wneud cysylltiadau da â nifer o bobl a chodi proffil ein gwaith yn y maes hwn.

???????4.3 Mae ein timau sy'n gweithio gydag **awdurdodau lleol** wedi bod yn rhan o'r gwaith canlynol:

- Yn ddiweddar, fe wnaethom gynnal **Diwrnod Bwyd Anifeiliaid** wyneb-yn-wyneb ar gyfer swyddogion bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol ledled Cymru. Yn bresennol oedd Dave Holland, aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Roedd y diwrnod yn rhoi sylw i'r model rhanbarthol ar gyflenwi bwyd anifeiliaid, yn adrodd ar ddigwyddiadau, yn rhoi trosolwg o bolisi bwyd anifeiliaid ac yn cynnwys sesiwn ar gydnabyddiaeth haeddiannol ar y cyd â Chynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL), un o bedwar cynllun sicrwydd cymeradwy'r ASB.
- Rydym wedi bod yn cymryd rhan weithredol yn Archwiliadau diweddar yr UE o Brydain Fawr, a'r diweddaraf oedd **Archwiliad Cynhyrchion Pysgodfeydd yr UE**. Fe roddodd y tîm gyflwyniad i'r archwilwyr mewn cyfarfodydd technegol a chynrychioli timau cyflenwi'r ASB yn ystod ymweliad ag awdurdod lleol, gan sicrhau dull gweithredu cyson ledled y DU a chryfhau cydweithio ar draws gwledydd. Mae'r tîm bellach yn llenwi holiadur cyn yr **Archwiliad Cynhyrchion Dofednod yr UE**.
- Ar 1 Medi 2025, fe wnaethom lansio prosiect casglu data chwe mis yng Nghymru i brofi **system gofrestru well**, a oedd yn cynnwys pum awdurdod lleol peilot a chwe awdurdod lleol rheoli. Bydd y prosiect yn asesu a yw data busnes ychwanegol yn galluogi awdurdodau lleol i flaenoriaethu arolygiadau cychwynnol yn well, gwella cydymffurfiaeth yn yr arolygiad cychwynnol, a lleihau achosion o ddiffyg cydymffurfio sy'n digwydd dro ar ôl tro. Mae'r adborth cynnar gan awdurdodau lleol wedi bod yn gadarnhaol, yn enwedig o ran y cydweithio cryf rhwng yr ASB yng Nghymru ac awdurdodau peilot. Bydd canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i Fwrdd yr ASB a Gweinidog Cymru i lywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol.
- Yn dilyn ymgynghoriad 12 wythnos, mae'r **Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)** a'r **Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd** diwygiedig bellach wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r Cod diwygiedig yn cyflwyno'r Model Gweithredu Safonau Bwyd newydd ac yn darparu dull mwy hyblyg sy'n seiliedig ar risg o flaenoriaethu rheolaethau swyddogol busnesau bwyd newydd, yn caniatáu mwy o ddefnydd o ddulliau rheoli amgen ac yn ehangu'r garfan o weithwyr proffesiynol sy'n gallu ymgymryd â gweithgareddau penodol. Bydd y tîm nawr yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o roi'r newidiadau hyn ar waith.
- Yn ddiweddar, mae'r tîm wedi dechrau'r **Rhaglen Archwilio Alergenau**, gyda dau archwiliad gan awdurdodau lleol wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, ac mae'r trydydd ar y gweill ar hyn o bryd. Y bwriad yw cynnal y pedwerydd archwiliad ddechrau mis Rhagfyr.
- Ar ben hynny, mae **arolwg Monitro Perfformiad awdurdodau lleol a gynhelir bob chwe mis** bellach wedi cau. Mae'r tîm wrthi'n dadansoddi'r data ar hyn o bryd a bydd yn cysylltu ag awdurdodau lleol unigol lle nodwyd pryderon posib.

???????4.4 Mae timau'r **Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU)** hefyd wedi bod yn brysur dros y misoedd diwethaf:

- Rydym yn rhan o'r ymarfer **Operation Pegasus** trawslywodraethol parhaus i brofi parodrwydd i ymateb i bandemig. Mae'r ASB yn ymwneud ag adrannau arweiniol yn ganolog, gan ddarparu cyngor gwyddonol ochr yn ochr ag asesiad risg cyflym. Mae'r timau yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda strwythurau gorchymyn a rheoli Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen. Nodwyd bod y risg i fwyd yn isel ond rydym yn parhau i ymgysylltu â'r tîm Digwyddiadau a Chyfathrebu i roi sicrwydd i ddefnyddwyr. Mae'r ASB hefyd yn defnyddio'r

ymarfer yn fewnol i brofi lefelau parodrwydd o ran staffio ac mae proses gwersi a ddysgwyd ar waith i nodi gwelliannau.

- Llwyddodd yr ASB a'r NFCU i sicrhau gorchymyn atafaelu gwerth £31,250.51 gan ddiffynnydd o Gymru a gafwyd yn euog o elwa o **werthu cig 'smokie' yn anghyfreithlon**. Cynhaliwyd y gwrandawiad llys ym mis Mehefin a diolch i gefnogaeth y tîm cyfryngau canolog, fe wnaethom ddrafftio a chyhoeddi'r stori newyddion hon, a'i rhannu â chyfryngau cenedlaethol allweddol ledled Cymru.
- Mae dyraniadau cyllid samplu wedi cael eu pennu ar gyfer **rhaglen samplu 25/26**. Daeth pum cais i law gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac maent yn cael eu hystyried i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Safonau Bwyd yr ASB a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Mae deg awdurdod lleol wedi cael cyllid ar gyfer 177 o samplau sy'n ymwneud ag alergenau, datganiad cynhwysion meintiol, manyleb cig a datganiad cynnwys cig. Bydd samplau'n cael eu cymryd o amrywiaeth o safleoedd.

???????4.5 Mae ein **tîm cyfathrebu dwyieithog** yng Nghymru wedi parhau i sicrhau bod negeseuon allweddol yr ASB yn cael eu lledaenu ledled Cymru, sydd wedi cynnwys:

- Yn ddiweddar, aethom i **gynhadledd Comisiynydd y Gymraeg** ar rannu arferion gorau darpariaeth Gymraeg a gwnaethom gyflwyno sesiwn ar y cyd â swyddfa'r Comisiynydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau'r Asiantaeth Safonau Bwyd o ran ymgyrchoedd dwyieithog. Roedd y digwyddiad yn gyfle i rannu arferion gorau ar draws adrannau'r llywodraeth sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg, ac i adeiladu'r rhwydwaith hwn er mwyn gallu gweithio'n fwy effeithlon yn y dyfodol.
- Ddiwedd mis Medi, gwnaethom gynnal estyniad wedi'i dargedu o'n **hymgyrch *Bacteria Love It Here***, gan ganolbwyntio ar **fyfyrwyr** sy'n dechrau neu'n dychwelyd i'r brifysgol – llawer ohonynt yn byw mewn llety a rennir ac yn coginio dros eu hunain am y tro cyntaf. Fe wnaethom rannu pecynnau cymorth, adnoddau a chynnwys gyda thimau'r wasg mewn awdurdodau lleol, partneriaid, prifysgolion a darparwyr cyfryngau yng Nghymru, a rhoddwyd sylw i'r ymgyrch ar sioe frecwast BBC Radio Cymru, a oedd yn cynnwys segment ar hylendid ceginau myfyrwyr. Rydym hefyd yn datblygu hysbysebion radio dwyieithog gydag awgrymiadau cyflym ar hylendid bwyd, a fydd yn cael eu darlledu ar orsafoedd radio myfyrwyr ledled Cymru dros y misoedd nesaf.
- Roedd y tîm hefyd yn bresennol yng **nghynhadledd Cyfryngau Cymdeithasol Cymru** yn ddiweddar, gan ddod â chrewyr, sylfaenwyr a dylanwadwyr o bob cwr o Gymru at ei gilydd i rannu straeon a chyngor ar redeg cyfrifon proffesiynol a diddorol a'r dirwedd cyfryngau cymdeithasol ehangach. Rhannwyd awgrymiadau a thechnegau i baratoi ar gyfer lansio sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar deilwra cynnwys allweddol ASB i'n cynulleidfaoedd a'n rhanddeiliaid yng Nghymru.

## 5. Ymgynghoriadau

???????5.1 Mae'r ymgynghoriadau canlynol yn fyw ar hyn o bryd:

- Galwad am ddata: Acrylamid mewn bwyd – Mae'r ASB ac FSS yn gofyn am ddata ar lefelau acrylamid mewn bwyd.

**Dyddiad lansio:** 30 Gorffennaf 2025

**Dyddiad cau:** 30 Tachwedd 2025

- Ymgynghoriad ar geisiadau i awdurdodi 3 cynnyrch bwyd Canabidiol (CBD) fel bwydydd newydd Awst 2025 – Ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar y ceisiadau am gynnyrch rheoleiddiedig sy'n cael eu hystyried yn y ddogfen hon, ac sydd wedi cael eu cyflwyno i'w hawdurdodi.

**Dyddiad lansio:** 28 Awst 2025

**Dyddiad cau:** 20 Tachwedd 2025

- Ymgynghoriad ar y cynnig i wahardd defnyddio bisffenol A (BPA), bisffenolau eraill a deilliadau bisffenolau mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd – Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau, sylwadau ac adborth rhanddeiliaid ar ein cynnig i wahardd defnyddio bisffenol A (BPA), a bisffenolau eraill mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd (FCMs). Bydd yr ymatebion a ddaw i law yn darparu tystiolaeth a fydd yn cael ei defnyddio i geisio penderfyniad ffurfiol ar statws BPA a'i analogau.

**Dyddiad lansio:** 2 Hydref 2025

**Dyddiad cau:** 24 Rhagfyr 2025

# 6. Edrych Tua'r Dyfodol

???????6.1 Bydd llawer o'r gwaith yn yr adroddiad hwn yn parhau dros y misoedd nesaf. Ar ben hynny, byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu'r prosiectau a'r ffrydiau gwaith canlynol.

???????6.2 Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i'w helpu i drosglwyddo i'r **Model Gweithredu Safonau Bwyd**; gan ddysgu gwersi o'i weithredu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

???????6.3 Bydd **etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2026** yn arwain at newid mawr i gynrychiolaeth seneddol Cymru, gan gynyddu nifer Aelodau'r Senedd o 60 i 96. I baratoi ar gyfer y newid hwn, rydym yn parhau i feithrin perthynas gref ag Aelodau'r Senedd i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth dda am flaenoriaethau defnyddwyr o ran bwyd yng Nghymru. Mae gennym ragor o sesiynau ymgysylltu ar y gweill yn y Farchnad yn y Senedd, gyda'r nod o gadw diogelwch a safonau bwyd yn amlwg yn agenda polisi Cymru.

??????????????6.4 Mae ein **gweithgareddau gyda rhanddeiliaid a chyfathrebu** arfaethedig dros y misoedd nesaf yn cynnwys:

- Wrth i ni nesáu at dymor y Nadolig, rydym yn lansio **estyniad o'n hymgyrch lwyddiannus *Bacteria Love It Here***, gan rannu negeseuon hylendid bwyd gyda defnyddwyr sy'n paratoi prydau bwyd gartref. Ochr yn ochr â hyn, mae ein hymgyrch *Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell* yn parhau i gefnogi busnesau bwyd bach a microfusnesau.
- 
- Fel y nodwyd uchod, dros y misoedd nesaf bydd y tîm yn lansio **sianeli cymdeithasol dwyieithog newydd** ar gyfer ein cynulleidfa yng Nghymru. Bydd y sianeli hyn hefyd yn caniatáu i ni ryngweithio a hyrwyddo cynnwys gan randdeiliaid ac awdurdodau lleol yn llawer mwy uniongyrchol nag y gallwn ar hyn o bryd wrth rannu sianeli cyfathrebu canolog, a byddant yn caniatáu i ni deilwra negeseuon i adlewyrchu cyd-destun, gwerthoedd a blaenoriaethau diwylliannol Cymru.